

few moments later, Madame Patti ascended the platform, leaning on the arm of Dr Williams, such a cheer of welcome broke forth from the throats of the assembled thousands as perhaps has never before been heard among the beloved hills and valleys of Wales . . . and Madame Patti took her seat amidst frantic cheers and the waving of thousands of hats and handkerchiefs.

Madame Patti was then requested to sing. As the Queen of Song rose to her feet she was greeted with a ringing cheer. When Mr Wilhelm Ganz, who acted as accompanist, struck the opening chords of the aria 'Ah non credea' and 'Ah non giunge' from 'La Sonambula' there was impressive silence throughout the vast assembly. On the conclusion of the song the audience leaped to their feet, and cheer after cheer rang through the vast building. Madame Patti bowed her thanks again and again, but the audience were not to be silenced, and they loudly clamoured for an encore. Madame Patti at length smilingly rose to her feet, and again stepping to the front, sang the old and popular ballad 'The Last Rose of Summer' in F. . . As the Queen of Song resumed her seat a thundering roar of applause again broke forth, and some minutes elapsed before the proceedings could be continued. In response to a further request, Madame Patti sang with unapproachable charm and pathos, the popular song 'Home, Sweet Home', but the greatest impression on the audience was made undoubtedly, in her rendering of the Welsh National Song 'Hen Wlad fy Nhadau', to which the entire audience, led by Mabon, contributed

a chorus. The excitement and enthusiasm was intense and prolonged, and it is seldom that even the great diva herself is accorded a more genuine, spontaneous, and warm-hearted a welcome.

\* \* \* \*

YMHEN pythefnos byddwn yn medru edrych yn ôl ar Eisteddfod Genedlaethol 1993 a gweld pwy oedd y sêr yno.

## YNY LHYVYR HWNN

Trwy gyfuno amrywiaeth o resymau neu esgusodion yn un bwndel — pethau fel bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn Ne Powys eleni, bod tref Aberhonddu yn nalgylch yr Eisteddfod a bod nifer dda o aelodau Cymdeithas Bob Owen a darllenwyr Y Casglwr yn ymddiddori mewn llyfrau — y mae modd creu achos tros ddadlau y byddai peidio cyfeirio yn y rhifyn hwn o Y Casglwr at y ffaith mai gwŷr o Aberhonddu oedd yn gyfrifol am y llyfr cyntaf i gael ei gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg yn ôl pob tebyg, yn bechod o'r radd eithaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r arbenigwyr yn gytûn mai Yny lhyvyr hwnn yw'r llyfr cyntaf i gael ei gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg ac mai yn 1546 y cafodd ei gyhoeddi. Llyfr anhysbys ydyw ac fe'i hadweindir wrth ei eiriau agoriadol. Yn ei ragair i Destament Newydd

Cymraeg 1567 mae'r Esgob Richard Davies yn datgan yn glir mai Syr Siôn Prys oedd ei awdur. Hyd yn oed pe na byddai Richard Davies wedi dweud hyn nid tasg anodd fyddai ei gysylltu â Syr John Price, 1502-55, yr uchelwr, gweinyddwr y Goron ac ysgolhaig o Aberhonddu, ar sail ei gynnwys a'i orgraff.

Addysgwyd Syr John yn Rhydychen lle graddiodd yn y gyfraith ac yna aeth ymlaen i'r Deml Ganol yn Llundain yn 1523. Erbyn 1530 yr oedd yng ngwasanaeth y brenin, o dan Thomas Cromwell efallai. Pridodd nith i wraig Cromwell yn 1534. Cafodd ddyrchafiad cyflym, Notari Cyhoeddus, Prif Gofrestrydd y Goron mewn materion Eglwysig, Cofrestrydd Salisbury, ymwelydd â'r mynachlogydd, ac o 1540 ymlaen Ysgrifennydd Cyngor Cymru a'r Gororau. Gyda'r swyddi breision hyn fe ddaeth cyfoeth ac awdurdod mawr i'w feddiant, yn arbennig felly dir fu'n perthyn i'r mynachlogydd y bu mor brysur yn eu diddymu. Dim rhyfedd bod y bardd Lewis Morgannwg yn medru dweud wrtho y flwyddyn y cafodd ei urddo'n farchog, 'Y mae dy gynnydd fel hirddydd haf'. Bu farw 15 Hydref 1555 yn Henffordd yn dad i ll o blant. Twm Siôn Cati oedd ail ŵr un o'i ferched!

Er tegwch iddo mae'n rhaid cydnabod fod Syr John yn fwy na gwas sifil llwyddiannus oherwydd fe ymddiddorodd yn

hanes a llenyddiaeth Cymru ac fe gasglodd lawysgrifau'n frwd. Yr oedd yn gynrychiolydd teilwng o'r diwygiad Protestannaidd yng Nghymru ac un o'i brif amcanion oedd sicrhau bod y rhannau hanfodol o'r Ysgrhythurau ar gael yn Gymraeg.

Cyrol bedwarplyg fechan o 17 dalen, o bosibl wedi eu ffurfio o ddwy siten sengl ac un ddwbl ynghyd ag un rhestr gwallau ychwanegol, yw Yny lhyvyr hwnn. Ar y wyneb dalen ceir arwydd a border yr argraffydd Edward Whitchurch. Mae'r unig gopi o'r gyfrol wreiddiol sydd wedi goroesi yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Daeth i'r Llyfrgell trwy garedigrwydd ei phrif sylfaenydd Syr John Williams, 1840-1926, a oedd wedi prynu Casgliad Shirburn, a oedd yn eiddo i Ieirll Macclesfield ac a ffurfiwyd gan y Parch. Samuel Williams a'i fab y Parch. Moses Williams, i'w roi yn rhodd i'r Llyfrgell Genedlaethol newydd-anedig.

Yr hyn a geir yn y gyfrol yw'r wyddor, calendr, y Credo, y Pader, y Deg Gorchymyn, Saith Rhinwedd yr Eglwys, y Saith Pechod Marwol, cyfarwyddyd ynglŷn â darllen Cymraeg ynghyd â chynghorion i ffermwyr ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. At y bobl gyffredin yr anelwyd y llyfr, i'w hyfforddi ym mhrif egwyddorion y ffydd Gristnogol a hynny yn eu mamiaith.

Fe olygodd y Prifathro J. H. Davies atgynhyrchiad teipograffig gofalus o'r gyfrol yn 1902.

"Y GWIR YN ERBYN Y BYD."

"Dan nawdd Duw a'i danguef."  
"Iesu na'd gamwaith."

"Duw a phob daioni."  
"Calon wrth Galon."

THE

## Royal National Eisteddfod of Wales

GORSEDD BEIRDD YNYS PRYDAIN A CHADAIR DYFED.

BRECON, AUGUST 27th, 28th, 29th, and 30th, 1889.

OFFICIAL



PROGRAMME.

